Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru
Papur Ymchwil Rhif 1 2018

# Yr 'Anialwch': Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Hannah Bussicott a Jane Williams

Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru wedi'i lleoli yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe. Mae wedi tyfu o'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant, ac mae'n ategu ei gwaith.

Am ragor o wybodaeth am y Ganolfan, cysylltwch â Hannah: h.j.bussicott@swansea.ac.uk
Am ragor o wybodaeth am yr Arsyllfa, gweler:
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/arsyllfacymruhawliauplant/
Dilynwch Ganolfan Gyfreithiol y Plant ar twitter: @ChildLegalWales

Mae pwnc y Papur Ymchwil cyntaf hwn gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant Cymru yn addas ar adeg pan mae'r Ganolfan yn profi ei hadnoddau cyntaf ar gyfer Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein a rhaglen Cyfraith y Stryd newydd.

Bu'r ymchwil yn bosibl yn sgil cymorth hael y Rhwydwaith Ymchwil Addysg Gyfreithiol (LERN). Hoffai'r awduron fynegi eu diolch i'r Athro Patricia Leighton am ei hanogaeth ac am y cyfle i gyflwyno'r canfyddiadau yn Nigwyddiad Arddangos Ymchwil y Rhwydwaith yn y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Uwch ym mis Tachwedd 2017. Fe wnaethom elwa'n fawr o ddysgu gan eraill yn y digwyddiad a chael sylwadau ar ein canfyddiadau cychwynnol.

Hoffem ddiolch hefyd i'n cyd-weithwyr yn yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor, ein partneriaid yn y gymuned fu'n cynorthwyo â'r grwpiau ffocws a'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran, gan gyfrannu eu safbwyntiau unigryw a hanfodol ar eu profiad o'r gyfraith, yr hyn y teimlant fod arnynt angen ei wybod a sut yr hoffent allu cael gafael ar wybodaeth a chyngor cyfreithiol.

# Cynnwys


1) Y Pwnc a'r Cwestiynau Ymchwil

2) Dulliau

3) Adolygiad o'r Llenyddiaeth

4) Canfyddiadau Ymchwil

5) Trafodaeth

6) Casgliadau ac Argymhellion

7) Cyfeirnodau

8) Atodiadau

   1. Darpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn Ysgolion y Gyfraith Cymru
   2. Darpariaeth Arall yng Nghymru
   3. Arolwg Ar-lein
   4. Sesiwn Grŵp Ffocws


## 1. Y Pwnc a'r Cwestiynau Ymchwil

> *Un o ofynion sylfaenol rheolaeth cyfraith yw y dylid gwneud y gyfraith yn hysbys. Rhaid i'r unigolyn allu bod yn ymwybodol o'i hawliau a'i rwymedigaethau cyfreithiol.* Mr. Ustus Burton: *R (Salih a Rahmani) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2003] EWHC 2273 (Admin)

Mae'r angen i hyrwyddo gwybodaeth y cyhoedd am y gyfraith yn cael ei gydnabod yn eang y dyddiau hyn. Yn y Deyrnas Unedig, bu i ymgynghoriad a'r argymhellion a ddeilliodd yn ei sgil gan weithredwyr anllywodraethol (yr Advice Services Alliance, y Citizenship Foundation a'r Legal Action Group 2004; 2005) arwain at gefnogaeth gan y Llywodraeth i sefydlu'r Tasglu Addysg a Chymorth Cyfreithiol Cyhoeddus (Public Legal Education and Support Task Force, PLEAS) yn 2006. Yn ei dro, roedd adroddiad y tasglu (PLEAS, 2007) yn sail i sefydlu Grŵp Hollbleidiol yn Senedd y DU yn cysylltu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus â Pro Bono. Yn 2014, bu i gomisiwn a sefydlwyd gan y Legal Action Group dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Low, aelod o'r grŵp hollbleidiol, ystyried y 'diffyg cyngor' ar gymorth lles cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Argymhellodd Comisiwn Low y

> *Dylid rhoi blaenoriaeth uwch i addysg gyfreithiol gyhoeddus, yn yr ysgol ochr yn ochr â llythrennedd ariannol, ac mewn addysg ar gyfer bywyd, fel bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gwybod ble gallant fynd i gael cymorth.* (Comisiwn Low, 2014: ix)

Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd yn Lloegr, â phrosiectau pro bono gan brifysgolion a chyrff y trydydd sector megis Law for Life yn dyst o hynny, mae'r dystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant yng Nghymru cyn yr ymchwil hon yn awgrymu nad oedd pethau wedi gwella, a'u bod wedi gwaethygu o bosibl. Ystyrid Cymru yn 'anialwch o ran cyngor' ar feysydd allweddol o gyfraith lles cymdeithasol (BBC Cymru, 2016), ac ychydig o ddarpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus oedd ganddi. Y testun pryder mwyaf oedd bod prinder darpariaeth ar y gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, a hithau bellach yn fframio'r modd y gweinyddir iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, cynllunio, trafnidiaeth a llawer o feysydd eraill sydd o bwys canolog i bobl yng Nghymru.

Er bod y problemau hyn yn amlwg yn effeithio ar bobl o bob oed, mae plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd ar yr ymylon, dan anfantais ychwanegol. Canfu ymchwil yn Lloegr fod 'nifer sylweddol o bobl ifanc heb unrhyw wybodaeth, neu ddim ond ychydig o wybodaeth, am y modd y mae'r system gyfreithiol yn gweithio, ac mae'n debyg eu bod wedi dysgu'r hyn a wyddant o ffynonellau anffurfiol ac anghywir' (Plenet ac IARS, 2009: 12). Yr unig beth a wna diffyg gwybodaeth gyfreithiol a chamddealltwriaeth yw eu gwneud yn fwy agored fyth i niwed.

Ar sail hyn oll, ac yn gyson â chenhadaeth Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru i fynd i'r afael â'r bwlch mewn gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfreithiol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, lluniwyd prosiect a fyddai'n:

- canfod pa Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru;
- ymchwilio i weld beth yw ei chwmpas a'i rhinweddau a pha mor hygyrch ydyw i blant a phobl ifanc;
- darganfod beth y mae ar blant a phobl ifanc ei eisiau i'w galluogi i gael gafael ar y gyfraith;
- helpu Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, ysgolion y gyfraith Cymru ac eraill fel y bo'n briodol i ddatblygu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus berthnasol, hygyrch ac effeithiol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Datblygwyd yr ymchwil ar sail dau gwestiwn allweddol:

- Sut mae ysgolion y gyfraith Cymru yn gwneud y gyfraith yn hygyrch i'r gymuned yn ehangach, ac i blant a phobl ifanc yn benodol?
- Beth sydd ar blant a phobl ifanc ei eisiau i'w galluogi i gael mynediad i'r gyfraith?

## 2. Dulliau

Roedd gofyn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil er mwyn cyflawni'r nodau ymchwil.

Cynhaliwyd adolygiad o'r llenyddiaeth, gan gwmpasu yr ychydig ddeunydd a ysgrifennwyd am Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â ffynonellau ar Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus mewn mannau eraill a llenyddiaeth am y cyd-destun Cymreig.

Gwnaed archwiliad o'r ddarpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus mewn prifysgolion a lleoliadau eraill trwy gyfrwng chwilio ar y we a chyfweliadau â staff ym mhum ysgol y gyfraith Cymru a darparwyr eraill.

Er mwyn darganfod beth oedd dymuniadau plant a phobl ifanc o ran eu mynediad i'r gyfraith, cafodd arolwg ar-lein a sesiwn gyfrannu eu creu, â'r ddau beth â'r nod o ganfod yr hyn y maent yn ei ffafrio o ran beth a sut yr hoffent ddysgu. Defnyddiwyd y sesiwn gyfrannu gyda chwe grŵp ffocws mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru, gyda phlant a phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd.

## 3. Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Fel y nododd Mr. Ustus Burton yn y dyfyniad ar ddechrau'r adroddiad hwn, mae'n un o 'ofynion sylfaenol rheolaeth cyfraith' y dylai unigolion allu gwybod beth yw eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Yn unol â hynny, gellir ystyried bod addysg gyfreithiol yn 'elfen allweddol o agwedd gyfannol tuag at wasanaethau cyfreithiol' (ASA, y Citizenship Foundation a LAG, 2004: 2). Yn y cyd-destun hwn, nid yr hyn y mae darlithwyr y gyfraith yn ei ddysgu i fyfyrwyr y gyfraith mewn ysgolion y gyfraith yw addysg gyfreithiol, ond yn hytrach y gyfraith a ddysgir

i'r cyhoedd. Yn gyffredinol, mae 'Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus' yn cyfeirio at y broses o addysgu'r cyhoedd, ond cafwyd sawl ymdrech i ddiffinio'r hyn ydyw a beth yw ei ddiben yn fwy manwl, i bennu dulliau o'i darparu ac i ganfod ffyrdd o werthuso ei heffaith.

## Diffinio Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus (PLE)

Yn rhifyn cyntaf yr *International Journal of Public Legal Education*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, mae Morse yn diffinio Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fel 'term ymbarél yr ydym wedi'i fabwysiadu i gwmpasu'r llu o weithgareddau a gynhelir ledled y byd â'r nod o addysgu aelodau o'r cyhoedd ynghylch hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol' (2017: 1). Mewn rhai gwledydd, gan gynnwys UDA a Chanada, mae Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn rhan o gylch gorchwyl ehangach addysg sy'n gysylltiedig â'r gyfraith neu addysg dinasyddiaeth ar ffurf mentrau llythrennedd cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiol cymunedol ac addysg gyfreithiol gymunedol. Mae Wintersteiger yn awgrymu bod gan bob Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, sut bynnag y caiff ei diffinio, 'ffocws ataliol a'i bod yn ceisio osgoi anghydfod cyfreithiol diangen neu wrthdaro sy'n dwysáu' (2016: 6) drwy gyfrwng mentrau addysgol rhagweithiol, gan fod 'gwasanaethau cyfreithiol a chynghori traddodiadol yn methu cyrraedd mwyafrif helaeth y bobl sydd â phroblemau cyfreithiol'(2016: 32).

Bu i dasglu PLEAS (2007: 9) fabwysiadu'r diffiniad gweithredol canlynol:

> *Mae Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn rhoi i bobl ymwybyddiaeth o hawliau a materion cyfreithiol, gwybodaeth amdanynt a dealltwriaeth ohonynt, ynghyd â'r hyder a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ymdrin ag anghydfodau a chael gafael ar gyfiawnder. Yr un mor bwysig, mae'n helpu pobl i sylweddoli pryd y mae arnynt angen cymorth o bosibl, pa fath o gyngor sydd ar gael, a sut i fynd ati i'w sicrhau.*
>
> *At hynny, mae gan Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus rôl allweddol bellach i'w chwarae i helpu dinasyddion i ddeall materion bywyd bob dydd yn well, gwneud gwell penderfyniadau, a rhag-weld ac osgoi problemau.*

## Dibenion Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus

Ystyrir bod y defnydd cynyddol o Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ledled y byd yn 'fecanwaith ar gyfer diwallu anghenion cyfreithiol cymunedau difreintiedig a sicrhau mynediad i gyfiawnder' (Wintersteiger, 2016: 8). Yn y DU, mae Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 a Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 yn pwysleisio ei bod yn bwysig i ddinasyddion ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau dan y gyfraith, ond hyd yma nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar unrhyw berson na chorff i ddarparu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus.

Mae Grimes et. al. yn cyflwyno Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fel ffordd o resymoli'r gyfraith, a sicrhau ei bod ar gael i bawb. Yn hanesyddol, 'roedd y gyfraith yn gymhleth ac wedi'i hysgrifennu mewn iaith oedd yn gwneud i bobl gyffredin deimlo fel eu bod yn cael eu cau allan' (Grimes et. al. 2010: 226). Mae'r gyfraith yn gymhleth ac mae'n esblygu o hyd. Mae mythau, sy'n cael eu hatgyfnerthu weithiau gan adroddiadau newyddion, yn dwysáu'r

gamddealltwriaeth. Bu i Arolygon y Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol yn 2010 a 2012 'ganfod diffyg gwybodaeth sylweddol yn y DU' – gyda '25% o bobl yn hawlio eu bod yn gwybod beth yw eu sefyllfa gyfreithiol … 38% o bobl yn gwybod am rai o'u hawliau [trais domestig] … a [llai na 40%] â gwybodaeth am hawliau cyflogaeth a lles' (Wintersteiger, 2016: 14). Wrth fyfyrio ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, mae Wintersteiger (2016: 20) yn awgrymu y bydd addysg gyfreithiol ragweithiol yn gostwng nifer yr unigolion sy'n ymdrin â phroblemau cyfreithiol drwy roi'r wybodaeth a'r sgiliau i ymdrin â phroblem cyn iddi ddwysáu. Felly gellir disgrifio diben Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fel gwella 'galluoedd cyfreithiol' dinasyddion – 'yr hyn y dylem ei wybod a gallu ei wneud pan fyddwn yn wynebu materion yn ymwneud â'r gyfraith yn ein bywyd bob dydd' (Collard *et al.* 2011: 1). Ar sail y farn hon, dylai Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fynd ymhellach na gwybodaeth am y gyfraith a systemau cyfreithiol a chynyddu sgiliau pobl fel eu bod yn gallu ymwneud â'r gyfraith, gan eu galluogi i adnabod ac ymdrin â'u materion cyfreithiol eu hunain. O'r herwydd, ystyrir mai'r hyn a wna Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yw darparu'r 'blociau adeiladu' er mwyn grymuso dinasyddion, yn hytrach na bod yn broses o greu arbenigwyr yn y gyfraith.

Mae Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn cynnig golwg ehangach ar ddibenion Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus mewn arweiniad sydd wedi'i anelu at gwmnïau cyfreithiol (2016: 5). Er ei bod yn cymeradwyo diffiniad tasglu PLEAS o Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus (roedd Cymdeithas y Gyfraith wedi'i chynrychioli ar y tasglu hwnnw), mae Cymdeithas y Gyfraith yn disgrifio Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fel rhywbeth sy'n 'bwysig' am bedwar rheswm. Yn gyntaf, mae Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn datgelu'r galw am wasanaethau cyfreithiol drwy addysgu pobl i ganfod y broblem gyfreithiol a cheisio iawn amdani. Yn ail, mae'n caniatáu ymgysylltu cymunedol yn yr un modd ag y mae ymgyrchoedd llwyddiannus i hyrwyddo iechyd a llythrennedd ariannol wedi gweithio o'r blaen. Yn drydydd, mae'n helpu i greu dinasyddion sydd wedi'u grymuso ac sy'n deall ac yn gwerthfawrogi rheolaeth cyfraith. Yn bedwerydd, mae'n cael gwared ar bryderon ynghylch pwy sy'n gallu astudio'r gyfraith ac felly'n lledaenu'r gronfa dalent i gynnwys ymgeiswyr mwy amrywiol ar gyfer cyrsiau'r gyfraith.

O'r safbwynt ehangach hwn, mae gan Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus werth cymdeithasol y tu hwnt i wasanaethu anghenion cyfreithiol yr unigolyn. Os yw mwy o wybodaeth yn ysgogi galw am wasanaethau cyfreithiol, mae Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn gymorth i'r proffesiwn cyfreithiol ffynnu. Os yw mwy o wybodaeth yn annog cydymffurfio â'r gyfraith, mae'n llesol o ran gorfodi'r gyfraith a sefydlogrwydd cymdeithas. Os yw'n arwain at well dealltwriaeth o'r cyfansoddiad a rôl y llysoedd, mae'n bosibl y gwelir gostyngiad yn nadrithiad y bobl â dyfarniadau llys uchel eu proffil (fel yr amlygwyd gan y pennawd drwg-enwog 'Enemies of the People' yn y *Daily Mail*, Tachwedd 2016). Os yw mwy o wybodaeth yn annog amrywiaeth o ran y rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol, mae'n mynd i'r afael â beirniadaeth hirsefydlog ynghylch natur ddethol y proffesiwn cyfreithiol a'r farnwriaeth. Ystyrir felly y gall Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus arwain at well hyder yn y gyfraith ymhlith y cyhoedd, twf mewn busnes cyfreithiol, cymdeithas sy'n barchus o'r gyfraith, cydlyniant cymunedol a dinasyddiaeth.

## Dulliau Darparu a Gweithgareddau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus

Un o egwyddorion sefydlol Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yw bod yn rhaid i'r modd y caiff ei darparu gyflwyno addysg a gwybodaeth gyfreithiol mewn modd hygyrch i'r gymuned fwriadedig, gan ystyried 'y ffaith fod pobl yn derbyn ac yn deall gwybodaeth mewn nifer o ffyrdd, sy'n rhywbeth a all gael ei bennu gan lefel eu haddysg neu hyd yn oed gan eu cefndir diwylliannol neu gymunedol' (ASA, y Citizenship Foundation a LAG, 2004: 4). Does dim ffordd 'gywir' o ddarparu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ond un ffactor cysylltiol yw ei bod yn hygyrch ac yn hwyl – 'gellir gwneud y pethau mwyaf cymhleth a chyffredin, hyd yn oed, yn ddealladwy a difyr' (Mulqueen a Thorpe, 2015: 1). Mae llawer o lenyddiaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn pwysleisio'r gair 'addysg' yn hytrach na 'gwybodaeth', gan awgrymu bod rhyw fath ar ryngweithio â'r wybodaeth gyfreithiol yn angenrheidiol, boed yn feirniadol neu'n fyfyriol.

Yn aml, mae'r dulliau o ddarparu yn dibynnu ar y cyd-destun. Bu i dasglu PLEAS ganfod enghreifftiau oedd yn cynnwys: ymgyrchoedd, taflenni neu becynnau, cwrs hyfforddiant, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, cynhyrchiad theatr, rhaglen deledu, cynllun mentora a gwefannau. Mae Parle yn awgrymu y gellir categoreiddio gweithgareddau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn dri math: darparu gwybodaeth; dulliau cymunedol; a gweithgareddau hunangymorth (Plenet ac IARS 2009: 12).

Mae'r cyd-destun yn dibynnu ar anghenion cyfreithiol y boblogaeth dan sylw. Gan ddefnyddio data o arolygon y Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol yn 2010 a 2012, nododd Pascoe Pleasance, Balmer a Denvir (2015) mai problemau yn ymwneud â chymdogion gwrthgymdeithasol, materion defnyddwyr, cyflogaeth ac arian oedd fwyaf cyffredin ymhlith yr ymatebwyr (2015: i). Dangosodd yr arolygon hefyd fod grwpiau agored i niwed, megis y rhai sydd ar incwm isel, yr henoed, yr ifanc, y rhai sydd â llai o gymwysterau neu a chanddynt afiechydon, oll yn fwy tebygol o ddioddef problemau cyfreithiol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ychwanegol sicrhau bod y dull darparu a'r cynnwys yn addas ac yn hygyrch ar gyfer y gymuned dan sylw.

## Effaith

Mae gwerthuso Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn dod yn gynyddol bwysig er mwyn dangos effaith ac effeithiolrwydd dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol o ymwneud ag addysg gyfreithiol. Nod y Fframwaith Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, a gomisiynwyd gan y Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol ym Mhrifysgol Bryste ac a ariannwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, oedd hybu gwerthusiadau cadarn o effaith ymyriadau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, gan ganfod beth sy'n gweithio a pham (Collard *et al.* 2011:13). Cafodd y Fframwaith ei brofi gan Bartneriaeth Gilfillan yn 2013 mewn astudiaeth beilot â thair asiantaeth gynghori a ganfu welliant mawr yng ngalluoedd cyfreithiol unigolion. Daeth i'r casgliad, fodd bynnag, fod angen ymchwil bellach hydredol ac ar raddfa fwy.

## Mentrau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus gan Brifysgolion – Cyfraith y Stryd

Mae Cyfraith y Stryd (Street Law) yn rhaglen Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus lle mae myfyrwyr y gyfraith yn gweithredu 'fel cyfrwng i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u hawliau a'u cyfrifoldebau' (Grimes *et al.,* 2011: 225). Cychwynnwyd y brand Street Law yng Nghanolfan y Gyfraith Prifysgol Georgetown, Washington D.C. yn 1972, ac mae wedi'i ddiogelu, a'r rhaglen, y deunyddiau a'r adnoddau yn cael eu cefnogi, gan gorff dielw byd-eang Street Law Inc. Mae'r rhaglen neu raglenni tebyg i'w gweld ledled y byd bellach, a'r cyfan wedi'i ddisgrifio fel 'mudiad cymdeithasol' (O'Brien, 2017: 4). Mae ei llwyddiant rhyngwladol yn amlwg yn sgil y ffaith y ceir mwyfwy o lenyddiaeth yn ei chylch, gydag un erthygl o Malaysia yn galw am i Gyfraith y Stryd fod yn 'ddisgyblaeth gyfreithiol yn ei hawl ei hun' (Suhaimi a Zulkifli, 2012: 2).

Yn y DU, gellir olrhain twf gweithgarwch tebyg i Gyfraith y Stryd i 1997 ym Mhrifysgol Derby, lle bu myfyrwyr y gyfraith yn gweithio mewn ysgolion trefol i gynorthwyo pobl ifanc ag achos troseddol realistig. Gan ddefnyddio profiad cynllun peilot Derby, bu i erthygl Grimes (2003), 'Legal literacy, community empowerment and law schools', gyflwyno'r rhaglen i ysgolion y gyfraith yn y DU. Aeth Grimes ymlaen i sefydlu rhaglen ar raddfa eang yng Ngholeg y Gyfraith (Prifysgol y Gyfraith bellach). Bu i chwiliad ar wefannau ysgolion y gyfraith Cymru a Lloegr a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018 ar gyfer yr ymchwil hon ddatgelu 29 o brosiectau Cyfraith y Stryd yn 96 Ysgol y Gyfraith y DU, gyda 9 ohonynt yn caniatáu i'r myfyrwyr oedd yn cymryd rhan ennill credydau tuag at eu gradd. Mae cynhadledd Cyfraith y Stryd ar gyfer y DU ac Iwerddon wedi'i chynnal am y ddwy flynedd ddiwethaf, gan roi rhagor o dystiolaeth o'r twf cyflym mewn diddordeb ymhlith darparwyr ac ymchwilwyr addysg gyfreithiol. Dywed Arthurs *et al.* (2017) mai Cyfraith y Stryd yw'r 'math o glinig cyfreithiol mwyaf poblogaidd a'r un sy'n tyfu gyflymaf yn y byd' (2017: 23).

Gellir priodoli llwyddiant Cyfraith y Stryd i amrywiaeth o ffactorau. Mae'n hygyrch ac yn isel o ran cost a gellir ei ddefnyddio yn unrhyw le, gydag unrhyw gynulleidfa ac ar gyfer unrhyw fater. Nid yw'r proffesiwn cyfreithiol yn ei weld fel bygythiad ac mae'n cael ei ystyried yn gyfle dysgu pwysig drwy brofiad i gyfreithwyr y dyfodol ddysgu sgiliau cyfreithia ymarferol a mynd i'r afael â materion proffesiynol a moesegol sy'n ymwneud â'r gyfraith. At hynny, mae'n caniatáu i ysgolion y gyfraith gefnogi'r gymuned, canfod anghenion cyfreithiol nad ydynt yn cael eu diwallu ac ymateb iddynt, boed drwy ymwneud uniongyrchol neu drwy dynnu sylw at y materion mewn cynnyrch ymchwil. Yn olaf, mae myfyrwyr yn mwynhau'r profiad o Gyfraith y Stryd, ac yn ei werthfawrogi'n fawr (Grimes *et al.* 2011: 239), maent yn miniogi eu crefft gyfreithiol (gan gynnwys ymchwil gyfreithiol, cyfathrebu a gofalu am gleientiaid), yn gwella eu sgiliau rhyngbersonol, yn magu hyder ac yn mewnoli moeseg (Suhaimi a Zulkifli, 2012: 3-4). Maent yn dysgu'r hyn y cyfeiriodd Barry et al. ato fel 'cyfreithia cyfiawnder cymdeithasol' (2012: 401).

Yn Nghymru a Lloegr, mae'r diwygiadau i'r Arholiad Cymhwyso i Gyfreithwyr yn rhoi'r pwyslais ar brofiad ymarferol a'r 'datblygiadau newydd posibl mewn technoleg'. Mae O'Brein (2016: 7) yn awgrymu bod yna bosibiliadau sylweddol i ddefnyddio Cyfraith y Stryd i'r perwyl hwn. Mae Grimes *et al.* (2011) yn rhoi enghraifft yn rhaglen Street Law Plus Coleg y Gyfraith yn Lloegr lle mae myfyrwyr, wedi hyfforddiant cychwynnol, yn rhoi cymorth ymarferol mewn clinigau drwy lenwi ffurflenni mewn meysydd megis budd-daliadau lles cymdeithasol.

Ffactor arall ym mhoblogrwydd Cyfraith y Stryd yw ei allu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm ysgol. Mae addysg dinasyddiaeth yn orfodol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 dan y Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr (Department of Education: 2014: 82) ac yng Nghymru mae Adroddiad Donaldson ar ddiwygio cwricwlwm addysgol Cymru yn cyflwyno datblygiad 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus – deall y canlyniadau i weithredoedd sy'n effeithio ar bobl eraill ac arnyn nhw eu hunain ac ystyried y rhain wrth weithredu a phenderfynu; deall materion iechyd, cyfreithiol, gwleidyddol a moesegol' fel un o bedwar diben allweddol y cwricwlwm (Donaldson, 2015: 46) .

Mae dulliau Cyfraith y Stryd wedi'u 'gwreiddio mewn ymchwil ac yn defnyddio'r arferion gorau o ran dysgu ac addysgu yn y man lle mae addysg sifil, addysg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gwaith paratoi dwys athrawon, a chreu cymuned yn dod ynghyd' (Arthurs *et al* 2017: 21). Ar yr un pryd, mae Cyfraith y Stryd yn dal i fod yn gymharol newydd o ran addysg myfyrwyr y gyfraith ac o ran Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Canfu Arthurs *et al.* fod ymchwilwyr yn 'ymwybodol iawn o bwysigrwydd prawf empirig o gysyniad, yn enwedig wrth geisio casglu cefnogaeth ar gyfer rhaglen newydd', ac awgrymodd fod angen gwneud mwy i arddangos datblygiad sgiliau a hunaniaeth broffesiynol yn y myfyrwyr, yn ogystal â'r effaith ar y gynulleidfa a'r gymuned (2017: 21).

Un maes allweddol o'r ymchwil bresennol ar effaith Cyfraith y Stryd yw ei gyfraniad at weithredu cymdeithasol, yn enwedig wrth ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae Grimes *et al.* yn awgrymu y gall Cyfraith y Stryd 'bontio bwlch rhwng gweithredu cymdeithasol ac addysg cyfiawnder' (2011: 229). Mae'n dadlau, fel menter sy'n 'niwtral yn wleidyddol', fod gan Gyfraith y Stryd y grym 'i annog dinasyddion, yn enwedig oedolion ifanc a phlant ysgol, i feddwl am y math o system gyfreithiol yr hoffent ei gweld yn y dyfodol' (Grimes *et al.*, 2011: 228). Enghraifft o hyn yw'r gwersylloedd 'Space Colony' yn Ne Affrica yn ystod cyfnod apartheid, oedd yn dod â phobl ifanc o bob cefndir hiliol ynghyd i drafod materion cyfansoddiadol. Mae Street Law Inc. wedi datblygu rhaglen gyfan o 14 o wersi sy'n ymwneud yn benodol â datblygu diwylliant o reolaeth cyfraith mewn cymdeithasau amrywiol.

Mae'r pwyslais hwn ar rôl Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn datblygu dinasyddion ifanc sy'n ymwneud yn ddemocrataidd yn cael ei adleisio gan Arthurs (2016) a Wintersteiger (2016). Mae Arthurs yn datgan bod 'bod yn addysgedig yn golygu mwy na dim ond ymwybyddiaeth ehangach a chwilfrydedd di-ildio; mae'n gofyn am dderbyn y cyfrifoldeb sy'n cyd-fynd â'r ymwybyddiaeth hon. Pan fydd y person addysgedig wedi'i ddeffro a'i siglo, mae rhwymedigaeth arno i weithredu ac esgor ar newid' (2016: 5). Mae'n dadlau bod Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, y mae'n cyfeirio ati fel addysg dinasyddiaeth, yn creu pobl ifanc a chanddynt y wybodaeth a'r sgiliau i beri newid mewn cymdeithas - 'ieuenctid yn trefnu'. Mae hyn nid yn unig yn gwella dinasyddiaeth weithgar ar hyn o bryd ond hefyd yn meithrin gwerthoedd a gwybodaeth sy'n creu dinasyddion a fydd yn ymwneud yn y dyfodol ac yn 'cryfhau ein democratiaeth trwy ei gwneud yn fwy cynhwysol ac yn fwy ymatebol i anghenion yr holl ddinasyddion' (Arthurs, 2016: 8).

## Mentrau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus Eraill

Er bod llawer o'r llenyddiaeth yn canolbwyntio ar ddarparu'r rhaglen trwy brifysgolion, mae sectorau eraill yn ymwneud hefyd â darparu rhaglenni Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Mae'r trydydd sector ac asiantaethau cynghori yn darparu amrywiol raglenni addysg sy'n ymwneud yn benodol â'r maes y maent yn gweithio ynddo. Er enghraifft, mae gwasanaethau cymorth cyffuriau ac alcohol yn aml yn darparu sesiynau ac yn dosbarthu gwybodaeth am hawl pobl sydd â phroblemau cam-drin sylweddau i gael cymorth.

Bu i astudiaeth beilot Law for Life yn 2013 gefnogi asiantaethau cynghori a phartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu sesiynau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Fe wnaethant ganfod bod yr asiantaethau cynghori oedd yn cymryd rhan 'yn ystyried bod Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn dod yn fwyfwy hanfodol er mwyn cynorthwyo pobl gyffredin i ymdopi wrth i doriadau cyllid leihau argaeledd gwasanaethau cyngor cyfreithiol a chyngor cyffredinol' (Partneriaeth Gilfillan, 2013: 4). Er hynny, canfuwyd fod asiantaethau cynghori ac asiantaethau'r trydydd sector angen rhagor o gymorth i sicrhau eu bod yn magu'r profiad a'r hyder i barhau i ddarparu'r rhaglenni. Nododd tasglu PLEAS yn ôl yn 2007 fod problem cyllid tymor byr, sy'n effeithio ar brosiectau elusennol a rhai dielw, yn rhwystr i Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus effeithiol, gan gyfrannu at ddarlun o gynlluniau ar wahân, episodig lle mae'n anodd datblygu cymuned ddysgu sy'n rhannu arferion da (2007: 19).

## Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus i blant a phobl ifanc

Mae plant a phobl ifanc yn fwy agored i niwed ac yn cael eu heithrio'n fwy rhag cael mynediad i wybodaeth ddibynadwy a dealladwy am y gyfraith. Cafodd y problemau eu harchwilio mewn astudiaeth ymchwiliol a gomisiynwyd gan y Rhwydwaith Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus (Plenet ac IARS, 2009) a nododd, er bod rhai pobl ifanc yn datblygu 'galluoedd cyfreithiol' trwy gyfrwng strwythurau addysgol presennol, 'mae pobl ifanc sydd ar yr ymylon, megis y rhai nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth, y rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, troseddwyr neu'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yn llai tebygol o gael cymorth neu o fod eisiau ymwneud â'r system a'r hyn sydd ar gael i brif ffrwd y boblogaeth' (2009:3). Bu i'r ymchwil hon, a oedd yn defnyddio gwaith grwpiau ffocws gyda phobl ifanc yn Llundain a Lerpwl, ddatgelu bod pobl ifanc yn teimlo 'ar goll ac yn ddiymgeledd', gan gael 'trafferth ymdopi â'r effeithiau emosiynol a'r straen yr oedd materion yn ymwneud â'r gyfraith yn eu cael ar eu bywydau' (2009:9).

Canfu Bevan (2016: 4) dystiolaeth oedd yn peri gofid, yn awgrymu bod 'diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth yn aml yn ffactor mewn ymatebion anffafriol i'r heddlu neu pan wneir penderfyniadau gwael ynghylch troseddu'. Mae Bevan (2016: 4) hefyd yn nodi'r angen am ragor o ymchwil ar y ddealltwriaeth sydd gan blant a phobl ifanc o'r gyfraith a'r system gyfreithiol. Mae'r ymchwil hyd yma yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau a theimladau plant a phobl ifanc yn hytrach na'u dealltwriaeth (Barnes a Wilson, 2007: 215).

Mae'r dull 'galluoedd cyfreithiol' a gafodd ei dreialu gan Parle ar gyfer Plenet ac IARS (2009) yn gam sylweddol tuag at fframwaith ar gyfer asesu llinell sylfaen ac, yna, mesur

effaith addysg gyfreithiol ar blant a phobl ifanc. Cafodd ymatebion pobl ifanc i sefyllfaoedd, trafodaethau a chwestiynau cyfweliad yn ogystal â thystiolaeth arsylwi eu dadansoddi gan ddefnyddio parthau 'gwybodaeth, sgiliau ac agweddau' gydag isbenawdau ym mhob parth yn ymwneud ag asesiad yr ymchwilydd o'r hyn sy'n debygol o wella galluoedd cyfreithiol. Dangos yr astudiaeth beilot fod pobl ifanc dan anfantais sylweddol ym mhob un o'r tri pharth, gan arwain at alluoedd cyfreithiol isel. Argymhellodd yr adroddiad y dylid cynnal arolwg ledled y DU gyda grŵp ehangach sydd yn gynrychioliadol o'r ddemograffeg (ibid: 9).

Gwnaeth yr un adroddiad argymhellion ynghylch sut y dylai Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ddatblygu er mwyn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc, gan gynnwys ehangu addysg sy'n gysylltiedig â'r gyfraith yn systematig i bawb, yn ogystal â gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon ac y byddai angen eu cyflwyno mewn gwaith allgymorth a thrwy gyfrwng y 'cynorthwywyr y maent yn ymddiried ynddynt', Adroddiad PLEAS (2009: 9). Mae'r adroddiad yn annog rhagor o waith er mwyn casglu gwell gwybodaeth a thargedu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus tuag at y grwpiau mwyaf anghenus ar unrhyw adeg benodol (2009:40).

## Y Cyd-destun Cymreig

Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, nid oes gan Gymru ei system ei hun ar gyfer gweinyddu cyfiawnder. Mae system y farnwriaeth a'r llysoedd, rheoleiddio'r proffesiwn cyfreithiol, yr heddlu a charchardai ar gyfer 'Cymru a Lloegr'. Fodd bynnag, ers datganoli yn 1999 cafwyd newidiadau gweinyddol sylweddol er mwyn darparu ar gyfer y corff ar wahân a bythol gynyddol o gyfreithiau Cymreig, a chyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol gwahanol Cymru, ac mae newidiadau pellach wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd (Thomas, 2016).

Ceir llawer o wahaniaethau, ac maent yn cynyddu o hyd, rhwng cyfraith 'Cymru a Lloegr' fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a'r gyfraith fel y mae'n berthnasol yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys llawer o gyfreithiau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc megis addysg a hyfforddiant, iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, darpariaeth anghenion arbennig/anghenion dysgu ychwanegol, amddiffyn plant, gweinyddu'r system plant sy'n derbyn gofal, tai, digartrefedd, trafnidiaeth gyhoeddus a chynllunio gofodol. Yn ogystal, ceir dyletswyddau cyfreithiol trawsbynciol yng Nghymru nad ydynt yn bodoli yn unman arall, gan gynnwys y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth iddynt arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, ac ar bobl pan fyddant yn arfer rhai swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, i roi'r 'sylw dyledus' i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (adran 1, *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)* 2011; adran 7, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014).

Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru yn hawdd i'w chanfod bob amser. Mae hyn yn rhannol oherwydd y modd y mae cyfreithiau Cymreig yn aml wedi cael eu troi'n ddeddf trwy ddiwygio deddfwriaeth arall oedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr

neu'r DU gyfan, a hynny mewn modd tameidiog. Archwiliwyd y broblem gan Gomisiwn y Gyfraith, a bu i'w adroddiad *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (2016) wneud argymhellion ar gyfer rhaglen barhaus o gydgrynhoi a chyfundrefnu.  Cytunodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor â'r rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac mae prosiect peilot ar waith i gasglu gwybodaeth ynghylch sut y gellir gwneud hyn (Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 13 Rhagfyr 2016).

Yn ogystal â'r gwahaniaethau mewn cyfraith gadarnhaol, mae deddfwriaeth Gymreig wedi creu prosesau a strwythurau cyfreithiol ar wahân. Ceir tribiwnlysoedd i Gymru mewn amrywiol feysydd gan gynnwys prisio tir, asesu rhent, iechyd meddwl, anghenion addysgol arbennig a'r Gymraeg. Mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi'r tribiwnlysoedd Cymreig hyn ar dir statudol ac yn darparu ar gyfer penodi 'Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru'. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i erlyn troseddau ym maes lles anifeiliaid, cynhyrchu bwyd, pysgodfeydd, gofal cymdeithasol, gofal plant a gofal iechyd annibynnol ac mae'r Cwnselydd Cyffredinol wedi cyhoeddi 'Cod Erlyn Llywodraeth Cymru' er mwyn llywio'r gwaith o arfer y pwerau hyn (Llywodraeth Cymru, 2018).

Yn nyddiau cynnar datganoli Cymreig, bu i aelodau o'r farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru gydnabod yr angen i ddwyn ynghyd yr holl 'etholaethau cyfreithiol' yng Nghymru er mwyn cwrdd â heriau a manteisio ar gyfleoedd datganoli, ac 'ymwneud â datblygiad hunaniaeth gyfreithiol Gymreig newydd' (Sefydliad Cymru'r Gyfraith, 2017). Mae'r 'etholaethau cyfreithiol' hyn yng Nghymru yn holl bwysig o ran datblygiad Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus i Gymru. Mae aelodaeth Sefydliad Cymru'r Gyfraith yn cynnwys y farnwriaeth, y Cwnsler Cyffredinol, ysgolion y gyfraith, gwasanaethau cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Bar Cymru a Chaer, Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol a bargyfreithwyr a chyfreithwyr gweithredol. Mae cynhadledd flynyddol y Sefydliad wedi bod yn lleoliad ar gyfer llawer o ddarlithoedd a dadleuon dylanwadol ac mae'n fforwm lle gall y gymuned o ddiddordeb sy'n egino mewn Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus i Gymru ymwneud â'r rhanddeiliaid cyfreithiol allweddol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd y cyd-destun cyfreithiol Cymreig er mwyn datblygu gwasanaethau cynghori a gwybodaeth yng Nghymru. Yn dilyn adolygiad yn 2013 o ddarparwyr cyngor y trydydd sector, mae wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor (Llywodraeth Cymru, 2016) ac wedi cefnogi sefydlu Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yng Nghymru, yn cynnwys aelodau o lywodraeth genedlaethol a lleol, cyrff proffesiynol a chyrff y trydydd sector.

Nid oes unrhyw rai o statudau datganoli Cymru hyd yma (Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006; Deddfau Cymru 2014 a 2017) wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn o wahanu Cymru fel awdurdodaeth i raddau mwy helaeth. Bu i ddadleuon seneddol yn ystod hynt Deddf 2017 weld Llywodraeth y DU yn cadw at ei safiad fod un awdurdodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr yn parhau i wasanaethu Cymru'n dda ac y dylid ei chadw. Yng nghymuned 'Cymru'r Gyfraith', ni chytunir â'r safiad hwn yn eang (er enghraifft: Jones a Williams, 2004; Jones, 2016; Geldards 2017; Thomas, 2015). Mae'r drafodaeth ddiweddaraf ar y ddadl yn digwydd yn sgil sefydlu y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a ddechreuodd ar ei waith yn ystod

wythnosau olaf 2017. Dan gadeiryddiaeth cyn Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, mae Prif Weinidog Cymru wedi gofyn i'r Comisiwn:

> *Adolygu gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru a gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol, gyda'r nod o:*
> - *hyrwyddo gwell canlyniadau o ran mynediad at gyfiawnder, gostwng nifer yr achosion o droseddu a hybu'r broses adsefydlu;*
> - *sicrhau bod y trefniadau awdurdodaethol ac addysg gyfreithiol yn adlewyrchu ac yn edrych ar swyddogaeth cyfiawnder yn llywodraethiant a ffyniant Cymru yn ogystal â materion neilltuol sy'n codi yng Nghymru;*
> - *hyrwyddo cadernid a chynaliadwyedd sector gwasanaethau cyfreithiol Cymru a sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant Cymru*
>
> (Datganiad i'r Wasg LlC, 20 Tachwedd 2017; y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2018)

Yn amlwg, bydd gwaith y Comisiwn hwn o bwys mawr ar gyfer datblygiad Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i gynnwys yr Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus a'r modd y'i darperir roi adlewyrchiad priodol o esblygiad parhaus datganoli yng Nghymru a'r trawsnewidiadau cysylltiedig, y mae gan y gyfraith, cyfreithwyr a systemau cyfreithiol rôl ganolog ynddynt.

## 4. Canfyddiadau Ymchwil

### *Cwestiwn Ymchwil 1: Sut mae ysgolion y gyfraith Cymru yn gwneud y gyfraith yn hygyrch i'r gymuned yn ehangach, ac i blant a phobl ifanc yn benodol?*

Ysgolion y Gyfraith

Ceir pum ysgol y gyfraith yng Nghymru, yn Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Pontypridd ac Abertawe

Bu i ymchwil desg a chyfarfodydd â staff ym mhob un o'r pum ysgol y gyfraith yng Nghymru ddangos bod gan bob un ohonynt ryw fath ar addysg gyfreithiol drwy brofiad neu 'Glinig' a chanddo wasanaethau cyngor a chymorth cyfreithiol ar gyfer y cyhoedd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd prosiect 'Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr' Aberystwyth a'r 'Gyfraith mewn Chwaraeon' yng Nghaerdydd, a'r ddau'n cydweithio'n agos â chorff rhanddeiliaid allweddol. Roedd pob un o ysgolion y gyfraith hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn ffug lysoedd barn.

Adeg yr ymchwil, nid oedd unrhyw un o'r ysgolion y gyfraith yn cynnig cyfleoedd wedi'u hachredu i fyfyrwyr gymryd rhan mewn Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Ysgol y Gyfraith ym Mangor oedd yn cynnig yr unig brosiect Cyfraith y Stryd ond roedd hwn dan arweiniad y myfyrwyr, ac er ei fod yn cael llawer o glod gan y myfyrwyr a'r staff, roedd yn ddibynnol ar y myfyrwyr oedd yn gwirfoddoli. O 2017 – 18, mae Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnig pedwar modiwl newydd drwy brofiad â chredydau sy'n galluogi myfyrwyr i astudio un neu ragor o'r meysydd canlynol: Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ('Street Law'); cyngor a chymorth Pro Bono ('Clinical Legal Education' a

'Miscarriage of Justice'); neu ddatblygu ymchwil gyfranogol gyda phlant ('Research with Children').

Canfuwyd mai Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yw'r unig ysgol y gyfraith yng Nghymru lle ceir ffocws penodol ar anghenion cyfreithiol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant. Mae'r Arsyllfa yn ymwneud â phartneriaid allanol ac â phlant a phobl ifanc er mwyn gwneud ymchwil, monitro ac adrodd ar hawliau dynol, eiriol dros bolisïau a hyrwyddo gwreiddio hawliau mewn sefydliadau. Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor, gwybodaeth, addysg a chynrychiolaeth gyfreithiol gyhoeddus i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mewn cyfarfodydd â staff at ddibenion yr ymchwil, ac yn y cyfathrebu a fu wedi hynny, daeth yn amlwg fod awydd wedi bod yn holl ysgolion y gyfraith Cymru i ddatblygu rhagor o Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, a bod yr awydd hwnnw yno o hyd. Fe'i hystyrid yn rhan o ddarpariaeth ysgolion y gyfraith o brofiad crwn, perthnasol i fyfyrwyr ac fel ffordd o ymateb i anghenion cymunedol. Ers cynnal yr ymchwil, mae prosiectau newydd wedi cael eu datblygu, megis cydweithrediad rhwng tair o'r ysgolion y gyfraith i gynnig sesiynau Cyfraith y Stryd i unigolion sy'n ymddangos gerbron y Tribiwnlys Cyflogaeth yng Nghaerdydd, a phrosiect yn Abertawe i gynnig 'desg gymorth' wyneb yn wyneb i ymgyfreithwyr yn y Ganolfan Cyfiawnder Sifil leol.

Ceir crynodeb o'r canfyddiadau ynghylch gweithgarwch Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn ysgolion y gyfraith Cymru yn Atodiad 1.

<u>Darparwyr y trydydd sector</u>

Mae cydweithredu â phartneriaid o'r gymdeithas sifil a'r trydydd sector, yn ogystal â gweinyddu asiantaethau cyfiawnder, yn nodwedd ar y mentrau sy'n egino yng Nghymru. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd sawl menter trydydd sector gan gyrff 'Cymru a Lloegr' neu'r 'DU' oedd wedi'u lleoli yn Lloegr naill ai'n ceisio gweithredu yng Nghymru neu, os oeddent yn gwneud hynny, roeddent yn cael anhawster ymwneud yn llawn â'r gwahanol gyd-destunau cyfraith, polisi ac arfer, gan gynnwys anghenion y Gymraeg a gofynion cyfreithiol trawsbynciol. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, a sicrhau ymateb strategol gan randdeiliaid o Gymru ym mhob sector perthnasol: mae'r cyd-destun Cymreig yn mynnu fframwaith sy'n canolbwyntio ar Gymru, gan gynnwys ar gyfer asesu a gwerthuso llinell sylfaen.

Ceir crynodeb o'r ddarpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru ac eithrio'r hyn a ddarperir gan brifysgolion Cymru yn Atodiad 2.

### *Cwestiwn Ymchwil 2: Beth sydd ar blant a phobl ifanc ei eisiau i'w galluogi i gael mynediad i'r gyfraith?*

Bu i'r arolwg ar-lein arwain at gyfanswm o 86 o ymatebion gan blant a phobl ifanc o 9 sir yng Nghymru, gydag 8 ohonynt yn y de neu'r gorllewin. Roedd hon yn gyfradd ymateb isel, felly dim ond i raddau cyfyngedig y gellir dibynnu ar yr ymateb, ac mae'n destun gofid ei fod

yn anghytbwys yn ddaearyddol. Er hynny, mae'n ychwanegu at y casgliad o dystiolaeth o astudiaethau bach eraill mewn rhannau eraill o'r DU, ac ynghyd maent yn cyflwyno darlun o alluoedd cyfreithiol sydd wedi'u tanddatblygu ymhlith yr ifanc.

Roedd y sesiynau grŵp ffocws yn cynnwys cyfanswm o 31 o gyfranogwyr ifanc, yn amrywio o ran oedran o 11 i 25. Cynhaliwyd sesiynau yng ngogledd, gorllewin canolbarth, de-orllewin a de-ddwyrain Cymru. Cafwyd mynediad at grwpiau drwy gyfrwng asiantaethau partner, a rhai ohonynt yn gweithio gyda phobl ifanc oedd yn gymharol ymwybodol o'u hawliau (mewn fforwm ieuenctid lleol, er enghraifft) ac eraill â phobl ifanc oedd yn dioddef yn sgil allgáu cymdeithasol, neu a oedd mewn perygl o hynny.

Mae cwestiynau'r arolwg ar-lein i'w gweld yn Atodiad 3, a strwythur y Sesiwn Grŵp Ffocws yn Atodiad 4.

<u>'Sut mae'r gyfraith yn effeithio arnaf fi'</u>

Cafwyd cydnabyddiaeth uwch na'r disgwyl ymhlith y plant a'r bobl ifanc fod y gyfraith yn effeithio ar eu bywydau fel mater o drefn. Roedd ychydig yn llai na'u hanner yn meddwl bod y gyfraith yn effeithio arnynt 'bob dydd', a dim ond 7% oedd yn meddwl nad oedd y gyfraith yn cael unrhyw effaith ar eu bywydau. Yn y grwpiau ffocws, y meysydd cyfreithiol y bu i'r cyfranogwyr nodi eu bod fwyaf tebygol o effeithio arnynt hwy eu hunain oedd:

- Cyfyngiadau oed cyfreithiol (cydsynio i ryw, priodi, byw'n annibynnol, gemau fideo, gadael ysgol, ymuno â'r fyddin, prynu anifail anwes)
- Rheoliadau gweithio (yn bryder penodol i bobl ifanc sy'n Sipsiwn-Teithwyr)
- Deddfau addysg (addysg orfodol, gadael ysgol, disgyblaeth, addysg am ddim, cael eu haddysgu gartref)
- Hawliau plant (dysgu am CCUHP, gwneud eu dewisiadau eu hunain)
- Oed pleidleisio
- Ysmygu ac yfed
- Y rhyngrwyd (yn enwedig You Tube a'r cyfryngau cymdeithasol).

Er mai'r rhain a gafodd eu crybwyll amlaf, roedd ystod lawn y materion y bu i'r grwpiau ffocws nodi'n gywir eu bod yn rhai 'cyfreithiol' yn llawer ehangach, ac yn cynnwys: cyllid a chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal (ymhlith y materion penodol roedd y ffaith fod cael sawl cyfeiriad yn effeithio ar gymhwystra am forgais / statws credyd / DBS ac ati); rhyddid i lefaru; rhyddid o ran credoau; deddfau gyrru (pryderon yn benodol am ddefnyddio ffôn wrth yrru), deddfau gamblo, sylweddau anghyfreithlon, trais, camdriniaeth, marwolaeth, lladrata, dwyn hunaniaeth, deddfau cyfreithiol (gan gynnwys trethi, budd-daliadau, costau gofal plant, budd-daliadau i'r rhai sy'n gadael gofal), cyfraith teulu (ysgaru, mabwysiadu, cyswllt teuluol, cyfrifoldeb rhiant, deddfau tai, mynd ar gynllun [gofal], iechyd a diogelwch (bwyd), cael eich arestio, deddfau gwahaniaethu (hiliaeth, stigma bod yn berson ifanc sy'n derbyn gofal), gwasanaethau iechyd (materion ynghylch cydsynio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ymwybyddiaeth o iechyd), deddfau mewnfudo (deddfau lloches, astudio dramor), deddfau amgylcheddol a diogelu (cipio).

Yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws, nodwyd bod y plant a'r bobl ifanc yn creu cysylltiad cryf rhwng unrhyw fater cyfreithiol a'r heddlu neu fod 'mewn trwbwl'. Roeddent yn llawer llai

ymwybodol o ddulliau unioni a phrosesau gweinyddol sifil ar gyfer gwneud iawn. Mae hyn yn ddiddorol o'i ystyried yng nghyd-destun y math o faterion yr oedd ymatebwyr yr arolwg a chyfranogwyr y grwpiau ffocws yn dweud iddynt fod angen cyngor cyfreithiol arnynt. O blith y 42% o ymatebwyr yr arolwg a ddywedodd eu bod wedi bod angen cyngor cyfreithiol, dywedodd 20% ei fod mewn perthynas â chyfraith teulu, 5% mewn perthynas â derbyn gofal, 5% mewn perthynas â bwlio, 2% mewn perthynas ag addysg a 2% mewn perthynas â chymorth ychwanegol. Yn yr un modd, bu i'r drafodaeth yn y grwpiau ffocws ganolbwyntio ar anghenion a hawliau o ran cymorth, yr angen i gael eu hamddiffyn rhag eraill a chael eu trin yn annheg, boed fel plant neu fel aelodau o leiafrif. Felly, yn ôl pob golwg, roedd y rhan fwyaf o'r 'anghenion cyfreithiol' yn y maes sifil, ond eto pan oeddent yn meddwl am 'y gyfraith' fel proses, roeddent yn meddwl am gyfiawnder troseddol yn hytrach na chyfiawnder sifil.

Beth mae plant a phobl ifanc angen ei wybod

Credai mwyafrif helaeth ymatebwyr yr arolwg – 76% – nad oedd plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am y gyfraith. Dywedodd 74% mai'r lle gorau i ddysgu am y gyfraith fyddai'r ysgol, o'i gymharu â 28% ar gyfer y rhyngrwyd a 25% ar gyfer lleoliad allgwricwlaidd megis clybiau ieuenctid. Yn ddifyr, ac ystyried y diddordeb swyddogol a'r diddordeb ymchwil cynyddol mewn atebion TG i bopeth, fwy na heb, dywedodd 67% mai'r ffordd orau o ddysgu am y gyfraith fyddai mewn gweithdai rhyngweithiol wyneb yn wyneb, o'u cymharu â'r 35% oedd yn ffafrio fideos ar YouTube a 18% ar gyfer podlediadau. Yn yr un modd, roedd y grwpiau ffocws yn ffafrio gweithdai rhyngweithiol yn y gymuned, ynghyd â sgyrsiau ar feysydd diddorol o'r gyfraith, a bu iddynt nodi bod ysgolion o bwys canolog o ran helpu i ddatblygu'r sgiliau i ymwneud â dysgu o bell ac fel lle i ddysgu wyneb yn wyneb.

Yn baradocsaidd (efallai), pan ofynnwyd iddynt i ble y byddent yn troi er mwyn cael cyngor cyfreithiol, dywedodd y mwyafrif (53%) y byddent yn troi at y rhyngrwyd, gyda 31% yn dweud y byddent yn siarad â rhiant neu ofalwr, 28% yn dweud y byddent yn gofyn yn yr ysgol ac 19% yn dweud y byddent yn ffonio llinell gymorth.

Nid oedd yn syndod, ar sail ein canfyddiadau ynghylch pa mor gyffredin yw Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus i blant a phobl ifanc yng Nghymru, nad oedd 67% o ymatebwyr yr arolwg wedi clywed am unrhyw fentrau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn y DU. Roedd 18%, fodd bynnag, wedi clywed am 'Street Law', ac 11% wedi clywed am 'Lawyers in Schools'.

Ffyrdd o ddysgu

Bu i ymatebwyr yr arolwg a chyfranogwyr y grwpiau ffocws nodi llu o ffyrdd y gallai plant a phobl ifanc ddysgu am y gyfraith. Yn y grwpiau ffocws, dyma un o'r gweithgareddau y cafwyd yr ymwneud mwyaf brwdfrydig ag ef. Ymhlith y syniadau roedd:

*Gweithgareddau:* Chwarae rôl gyda gwisgoedd a gwrthrychau lle gallwch ddewis eich diweddglo eich hun; Creu gêm; Dadleuon ynghylch cwestiynau allweddol megis oed pleidleisio neu hyd y diwrnod ysgol (yr olaf yn gysylltiedig â gofynion CCUHP a gofynion cyfraith cyflogaeth); Gwneud fideos; Gwneud 'byrddau stori'.

*Dulliau cyfathrebu:*

- Ar bapur: Posteri; Lluniau; Llyfrau; Newyddlenni.
- Ar y we: Gwefan/apiau/cyfryngau cymdeithasol/ fideos/podlediadau/e-fwletinau/blogiau â gwahanol fformatau fel y gall pawb eu deall waeth beth yw eu gallu (defnyddiwch offer ar-lein megis Kahoot, Quizlet a Quizdom i greu gwersi a chwisiau rhyngweithiol); fideos YouTube sy'n ateb cwestiynau penodol.

*Ysgolion (yn seiliedig ar y cwricwlwm):* Dysgu yn yr ysgol yn ystod gwersi addysg bersonol a chymdeithasol; Mae angen dysgu pobl ifanc am y gyfraith cyn iddynt allu rhoi eu safbwyntiau/pleidleisio yn y dyfodol; Defnyddio enghreifftiau cyfreithiol a gwleidyddol ac achosion moesegol; Dysgu dosbarthiadau 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' fel pwnc gorfodol yn yr ysgol; Sgyrsiau mewn ysgolion gan ymwelwyr/gweithwyr proffesiynol megis cyfreithwyr/yr heddlu/staff cyfiawnder ieuenctid; Gwasanaethau ar gyfer yr ysgol gyfan, cyfnodau allweddol neu grwpiau blwyddyn.

*Ysgolion (allgwricwlaidd):* Clybiau ar ôl ysgol; Hyfforddi athrawon.

*Cymunedol:* Gweithdai a sgyrsiau i'r cyhoedd; Gweithdai mewn grwpiau cymunedol a chlybiau ieuenctid e.e. y Sgowtiaid a'r Brownis; Cyflwyno gweithdai rhyngweithiol y gall pobl ifanc eu mynychu yn eu prifysgolion lleol ac ar gyfer grwpiau sy'n anos eu cyrraedd na fyddant o bosibl yn gallu/eisiau mynychu (pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig/sipsiwn-teithwyr/LGBT+/grwpiau crefyddol) – mynd â'r gweithdy atynt hwy yn hytrach, a'i wneud yn benodol ar gyfer eu hanghenion hwy.

*Cyffredinol: hygyrchedd*: Defnyddio ffont Comic Sans a chefndiroedd melyn gan eu bod yn addas ar gyfer dyslecsia.

Mae'r casgliad yma o awgrymiadau a gynigiwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn arddangos yn dda y ddwy thema arhosol yn yr ymwneud hwn ac ymwneud arall â phlant a phobl ifanc yng Nghymru wedi datganoli. Y themâu hyn yw, yn gyntaf, fod plant a phobl ifanc yn datgan yn gyson eu hawydd i fod yn rhan o'r gwaith o ganfod atebion i faterion sy'n effeithio arnynt hwy eu hunain a'u cymunedau; ac, yn ail, ceir tystiolaeth amlwg dro ar ôl tro o'u gallu, os rhoddir yr amser, y lle a'r cyfleusterau iddynt, i gyfrannu syniadau da, ymarferol y gellid eu datblygu'n gynhyrchiol ar y cyd.

<u>Y gair olaf</u>

Mae canfyddiad olaf yr arolwg yn cyd-fynd â'r ddwy thema hyn. Y mwyafrif uchaf a gafwyd mewn ymateb i unrhyw gwestiwn, sef 78%, oedd o blaid cynnwys plant a phobl ifanc i raddau mwy helaeth wrth ddatblygu deddfau'r dyfodol.

# 5. Trafodaeth

Fel yn achos pob ymchwil, mae gan yr astudiaeth hon ei chyfyngiadau. Crybwyllwyd eisoes nifer fechan yr ymatebion i'r arolwg a'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Bu'r grwpiau ffocws a hwyluswyd ar gampysau prifysgol ym Mangor ac Abertawe yn llai llwyddiannus oherwydd problemau rhai darpar gyfranogwyr â chludiant ac argaeledd staff cymorth i ddod

yn gwmni iddynt. Dysgwyd ar sail hyn, a chafodd y sesiynau dilynol eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol yr oedd y cyfranogwyr yn eu mynychu'n rheolaidd, a defnyddir yr un dull wrth ymgysylltu yn y dyfodol, pryd bynnag y bo'n ymarferol. Yn ogystal, mae'n bosibl y rhoddir ystyriaeth i gynnig rhagor o gymhellion na dim ond cyfle dysgu a'r nwyddau 'am ddim' arferol. Casglwyd gwybodaeth am weithgarwch Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus sy'n bodoli eisoes drwy gyfrwng cyfweliadau gan ddefnyddio'r dull 'pelen eira', â'r perygl cynhenid na chafwyd gafael ar bob ffynhonnell wybodaeth berthnasol. Mater arall, a nodwyd hefyd yn ymchwil Partneriaeth Gilfillan (2013), yw natur 'ciplun' yr ymchwil. Mae angen ymchwil hydredol ac astudiaethau peilot rheoledig yn y dyfodol er mwyn asesu effaith y gweithgarwch Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus sy'n datblygu yng Nghymru, gan gynnwys astudiaethau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, er na ddylid ei gyfyngu i hynny'n unig.

Fodd bynnag, gellir gwneud iawn am nifer cyfyngedig y plant a'r bobl ifanc a gyfranogodd yn yr ymchwil hon, i ryw raddau, trwy gyfuno'r canfyddiadau â gwybodaeth o brosiectau cyfrannu eraill sydd wedi'u cynnal yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys sawl prosiect dros y degawd diwethaf, a rhai ohonynt wedi'u harwain gan blant neu ieuenctid. Maent yn cynnwys ymchwil at ddibenion adrodd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (Y Ddraig Ffynci, 2007a; 2007b; Lleisiau Bach yn Galw Allan, 2015; 2018; FUNC+, 2015; Participate!, 2016; Grŵp Monitro CCUHP Cymru, 2015; Comisiynydd Plant Cymru, 2015; Cymru Ifanc, 2015). Mae ymgyngoriadau eraill wedi'u cynnal neu eu comisiynu gan Gomisiynydd Plant Cymru, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (er enghraifft: What Next? 2015; Votes@16, 2016). Mae tua 70 o brosiectau ymchwil lleol dan arweiniad plant wedi'u cynnal er 2014 gan brosiect Lleisiau Bach yr Arsyllfa yn unig (Adroddiad Terfynol Lleisiau Bach yn Galw Allan, 2018, i ddod). A cheir enghreifftiau o ymchwil dan arweiniad pobl ifanc yn targedu diwygiadau mewn meysydd penodol fel iechyd meddwl, megis adroddiad *Gwneud Synnwyr* Hafal (2015). O'u hystyried ynghyd, mae'r ffynonellau hyn yn rhoi rhagor o dystiolaeth o bryderon plant a phobl ifanc a'u hargymhellion ar gyfer newid, er nad ydynt wedi'u fframio'n benodol o safbwynt eu hanghenion cyfreithiol. Yr oedd dadansoddiad systematig o'r dystiolaeth gronnol hon y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon, ond hyd yn oed o ddarllen eu penawdau yn fras fe welir cysondeb ynghylch rhai o'r 'prif' faterion a ddatgelir yma, megis pryderon am yr amgylchedd (eu hamgylchedd uniongyrchol eu hunain, eu cymunedau, amwynderau, sbwriel a llanast, ysmygu, llygredd), diogelwch ar y rhyngrwyd, cwricwla ysgolion a pholisïau ysgolion, ofnau am ddiogelwch personol, materion yn ymwneud ag annibyniaeth bersonol, yr awydd i gael mwy o wybodaeth a chael eu cynnwys i raddau mwy helaeth, a llawer o faterion ym maes iechyd ac addysg.

Yn ystod yr ymchwil, daeth yn amlwg fod y darlun o Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru yn symud dan amrywiol ddylanwadau. Rydym wedi nodi'r twf cyflym yn y diddordeb mewn Cyfraith y Stryd yn ysgolion y gyfraith yn y DU ac Iwerddon, ac ymddangosiad diweddar prosiectau Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus newydd yng Nghymru. Er bod yn rhaid i'r ysgolion y gyfraith ymateb i'r galwadau am ragor o raddau cyfraith sy'n seiliedig ar sgiliau ac sy'n canolbwyntio ar arfer, mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn tynnu i gyfeiriad sy'n cyd-fynd drwy roi pwyslais bythol gynyddol ar effaith ac ymwneud â'r cyhoedd. Gan fod pethau'n symud i'r cyfeiriad hwn, does bosib ei bod yn rhesymol rhagweld y bydd Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn ennill ei lle yn rhaglenni dysgu ysgolion y gyfraith

ac, o ganlyniad, y bydd mwy o gydweithredu yn datblygu rhwng ysgolion y gyfraith a chyrff y trydydd sector. Ni fydd hyn yn 'digwydd' ohono'i hun, ond ceir cyfle yma o leiaf i sefydlu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fel rhywbeth y mae ysgolion y gyfraith a myfyrwyr y gyfraith yn ei wneud fel mater o drefn, rhywbeth y mae'r proffesiwn cyfreithiol yn ei gefnogi fel mater o drefn, rhywbeth y mae partneriaid y trydydd sector yn ymwneud ag ef fel mater o drefn a rhywbeth y gall dinasyddion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, droi ato gyda hyder.

Ffactor cyd-destunol ychwanegol yng Nghymru yw rhaglen barhaus Llywodraeth Cymru o ddiwygio cwricwla ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2015) a'i hymdrech i wella safonau addysgu trwy ddiwygio cymwysterau addysgu cychwynnol (er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2017). Roedd y cyfranogwyr ymchwil yn yr astudiaeth hon, fel yn llawer o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes ar Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc am addysg gyfreithiol.

Bu inni nodi yn yr adolygiad o lenyddiaeth y materion cymhleth ac esblygol sy'n deillio o gyd-destun Cymreig Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Mae'n amlwg ynddo'i hun fod yn rhaid i Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru roi ystyriaeth lawn a chywir i'r newid yn y tirwedd cyfansoddiadol ac i ddeddfau a phrosesau sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Gobeithir yn fawr y bydd datblygiad Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn dod yn ganolbwynt diddordeb ar gyfer cymuned 'Cymru'r Gyfraith', gan gysylltu â mentrau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ar gyngor a gwybodaeth a'r gymuned ddiddordeb gynyddol yn ysgolion y gyfraith yng Nghymru i hwyluso dull strategol, cydweithredol, 'gwnaed yng Nghymru' ar gyfer ymwneud ag Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus.

Mae'r astudiaeth hon wedi cynhyrchu rhagor o dystiolaeth fod gan blant a phobl ifanc, fel y cyhoedd yn gyffredinol, gamdybiaethau ynghylch y system gyfreithiol a lefelau isel o wybodaeth gyfreithiol, ond wedi'u cyfuno, fodd bynnag, â lefelau uwch o werthfawrogiad fod y gyfraith yn bwysig a'i bod yn effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r ffaith fod llawer o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil yn cysylltu 'y gyfraith' â'r heddlu yn bennaf, neu yn unig, yn peri gofid, ac mae'n awgrymu y dylai rhaglenni Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus gynnwys gwybodaeth am brosesau a dulliau o wneud iawn sifil a throseddol, yn ogystal â hanfodion y gyfraith.

Fel y nodwyd, nid gwerthuso ansawdd nac effaith Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru oedd nod yr astudiaeth, ond mae hyn yn rhywbeth y dylid ei wneud. Yn hyn o beth, gellid ystyried y lefel isel o weithgarwch a ganfuwyd yn ystod yr ymchwil yn fantais, yn enwedig o'i ystyried ar y cyd â'r twf presennol yn y diddordeb mewn datblygu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ac ymddangosiad sawl prosiect newydd yng Nghymru. Dyma'r adeg ddelfrydol i gynnal astudiaeth llinell sylfaen o alluoedd cyfreithiol plant a phobl ifanc Cymru, i'w defnyddio i fesur effeithiolrwydd yr ymdrechion hyn dros amser.

## 6. Casgliadau ac Argymhellion

Dros ddegawd ers cyhoeddi adroddiad tasglu PLEAS, gellid yn hawdd ddefnyddio ei sylwadau fod gan Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ddiffyg 'hunaniaeth gydlynol', nad yw 'naill ai'r meddwl na'r arfer mewn Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus wedi'u dwyn ynghyd mewn cysyniad, sector neu gorff o waith cydlynol sy'n gwneud Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn hawdd i'w hadnabod, ei deall neu ei gwerthfawrogi' ac 'nad yw'r mecanweithiau a fyddai'n galluogi darparwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd, yn syml iawn, yn bodoli' (2007:19) i ddisgrifio Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru heddiw. Ond eto ceir arwyddion fod y materion hyn yn cael eu cydnabod, gyda phrosiectau newydd yn datblygu a chyd-destun polisi sydd, er ei fod yn gymhleth, yn ffafriol er mwyn arwain at gynnydd mewn llawer o ffyrdd. At hynny, canfu ein hadolygiad o lenyddiaeth gasgliad cyfoethog o adnoddau cenedlaethol a rhyngwladol a thwf Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus fel maes ymchwil rhyngwladol.

Bu inni ganfod bod y ddarpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru yn dameidiog, yn anghyson a bod ganddi ddiffyg ffocws ar y cyd-destun Cymreig. Er nad yw ysgolion y gyfraith Cymru yn darparu gwybodaeth ac addysg gyfreithiol ddigonol i fodloni'r angen nad yw'n cael ei ddiwallu yng Nghymru, ac er na allent fyth wneud hynny, bu inni ganfod consensws anffurfiol yn nodi y gallent wneud mwy ac y gallai eu cyfraniad fod yn arwyddocaol nid dim ond fel darparwyr gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd, ond fel hyfforddwyr cyfreithwyr cymunedol a'r rhai sy'n canolbwyntio ar gleientiaid ac fel cronfeydd o dystiolaeth ymchwil a dysg er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus a'i darparu.

Bydd yn bwysig sefydlu dulliau gwerthuso systematig. Mae sylfaen gysyniadol dda wedi'i gosod yn y dull gweithredu 'galluoedd cyfreithiol'. Gallai cynyddu galluoedd cyfreithiol plant a phobl ifanc ddod yn rhan arferol o'r addysg a gynigir mewn ysgolion a cholegau. Byddai hyn yn gyson â nodau agenda *Dyfodol Llwyddiannus* ar gwricwla ysgolion Cymru. Byddai angen gwneud gwaith i ddatblygu cynnwys, dulliau cyflwyno a fframwaith asesu'r cwricwlwm ar gyfer Cymru, gan roi ystyriaeth lawn i ddeddfau, deddfu a gweinyddu datganoledig.

Yn olaf, er ei holl fuddiannau posibl, rydym yn cytuno â'r rheini sy'n pwysleisio nad yw Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn ddewis amgen ar draul rhoi mynediad digonol i gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i unrhyw ddinasyddion o unrhyw oed. Dylai Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus a gwasanaethau cyfreithiol hygyrch fynd law yn llaw, fel bod Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yn helpu i baratoi pobl i gael mynediad i'r gyfraith, y proffesiynau cyfreithiol a'r system gyfreithiol, ac yn helpu cyfreithwyr i ymateb yn effeithiol i anghenion eu cleientiaid.

*Wrth gloi, neges allweddol yr ymchwil hon oedd mai ychydig iawn o wybodaeth neu addysg gyfreithiol y mae ysgolion y gyfraith Cymru yn eu darparu sy'n diwallu anghenion cymdeithasol allanol, gan gynnwys*

*anghenion plant a phobl ifanc, ond ceir awydd ymhlith y rhai sy'n ymwneud â phrosiectau achlysurol, lleol ar raddfa fach i ddatblygu dull gweithredu Cymreig ar gyfer Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, gan ddysgu ar sail enghreifftiau cenedlaethol a rhyngwladol ond gan fod yn sensitif hefyd i gyd-destun cyfreithiol Cymru.*

Rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol:

1. Dylai pawb sydd â diddordeb, ym mhob sector yng Nghymru, ddod ynghyd i ddatblygu dull Cymreig o fynd ati i gyflwyno Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, i annog partneriaethau gweithredol ac i ymgysylltu â darparwyr Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus mewn rhannau eraill o'r DU a'r byd. Dylai'r dull gweithredu Cymreig gynnwys datblygu fframwaith ar gyfer asesu a gwerthuso llinell sylfaen sy'n canolbwyntio ar Gymru yn benodol.
2. Dylid cynnal rhagor o ymchwil hydredol ac ar raddfa fwy er mwyn gwella dealltwriaeth o effaith Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru ar y rhai sy'n cymryd rhan (gan gynnwys plant a phobl ifanc, aelodau eraill o'r cyhoedd, myfyrwyr y gyfraith, ymchwilwyr, y proffesiwn cyfreithiol ac eraill fel y bo'n berthnasol).
3. Dylai rhaglenni Cyfraith y Stryd a mathau eraill ar Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru fod wedi'u gwreiddio mewn dealltwriaeth o'r cyfansoddiad Cymreig, deddfau Cymreig, sefydliadau Cymru, amgylchedd polisi Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg a'r diwylliant, a dylent adlewyrchu'r materion hyn yn gywir. Ni ddylai rhaglenni a gynlluniwyd ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr gael eu cyflwyno yng Nghymru heb ystyried hyn.
4. Dylid ystyried cynnwys rhagor o addysg gyfreithiol mewn cwricwla ysgolion yng Nghymru. Dylid cynnwys plant a phobl ifanc, a dylid rhoi ystyriaeth i dystiolaeth ynghylch eu profiadau, eu safbwyntiau a'r hyn y maent yn ei ffafrio wrth lunio gofynion cwricwlaidd a dulliau cyflwyno, yn ogystal â chyfleoedd allgwricwlaidd.
5. Dylai cyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ystyried sut y gallant ddatblygu darpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus sy'n berthnasol i'w staff a defnyddwyr eu gwasanaethau.

## Cyfeirnodau

Advice Services Alliance (ASA), y Citizenship Foundation a'r Legal Action Group, 2004. *Towards a Strategy for Public Legal Education: A discussion paper.* Ar gael ar www.citizenshipfoundation.org.uk

Arthurs, S. 2016. 'Youth Organizing and the Civic Education Sector: Lessons from Theory and Practice to Organize a Way Forward'. Cyflwyniad fel uchafbwynt doethurol. Ysgol Addysg i Raddedigion Harvard.

Arthurs, S. Cooperman, M. Gallagher, J. Grealy, F. Lunney, J. Marrs, R. a Roe, R., 2017. 'From Zero to 60: Building Belief, Capacity and Community in the Street Law Instructors in One Weekend', *International Journal on Public Legal Education.* 1:1 tt. 19 – 70

Barnes, K a Clare Wilson, J. (2007) Young people's knowledge of the UK criminal justice system and their human rights. *International Journal of Police Science and Management*, 10(2): 214-221.

Barry, M. M. Camp, A. R. Johnson, A.E. Klien, C. F. a Martin, L. V., 2012. 'Teaching Social Justice Lawyering: Systematically including Community Legal Education in Law School Clinics', *Clinical Law Review* 18: tt. 401-457

BBC Cymru, 2016 'Legal aid cuts causing advice desert and homelessness', 28 Gorffennaf 2016.

Bevan, M., 2016. *Investigating young people's awareness and understanding of the criminal justice system: An exploratory study*, Howard League for Penal Reform

Collard, S., Deeming, C., Jones, M., Sergeant, J. a Wintersteiger, L., 2011. *Public Legal Education Evaluation Framework*, Prifysgol Bryste.

Comisiwn y Gyfraith, 2016. *The Form and Accessibility of the Law Applicable to Wales.* Law Com. No. 366

Comisiwn Low, 2014. *The Future of Advice and Legal Support.* Ar gael ar: https://www.lowcommission.org.uk/

Comisiynydd Plant Cymru, 2015. *Report of the four UK Children's Commissioners to the UN Committee on the Rights of the Child*

Comisiynydd Plant Cymru, 2016. *Beth Nesa? What Next? Sgyrsiau.*

Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr, 2016. *Developing a Public Legal Education Programme: Guidance and Toolkit.* Ar gael ar www.lawsociety.org.uk

Cymru Ifanc, 2015. *Report to the UN Committee on the Rights of the Child.* Sesiwn rhif 72, adroddiad cymdeithas sifil.

Daily Mail, 3 Tachwedd 2016. 'Enemies of the people': Fury over 'out of touch' judges who have 'declared war on democracy' by defying 17.4m Brexit voters and who could trigger constitutional crisis. www.dailymail.co.uk/news/

Department of Education, 2014. *The national curriculum in England, Key stages 3 and 4 Framework Document*, Llundain: Department of Education.

Donaldson, G., 2015. *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Y Ddraig Ffynci 2007a. *Our Rights Our Story*: *Report to the UN Committee on the Rights of the Child.* Sesiwn rhif 72, adroddiad cymdeithas sifil.

Y Ddraig Ffynci 2007 b. *Why do children's ages go up not down? Report on 7 10 year olds' access to rights in Wales.* Y Ddraig Ffynci.

FUNC+, 2015. *Report by the Campaign for the Children and Young People's Assembly for Wales to the UN Committee on the Rights of the Child.*

Geldards, 2017. 'Wales Act 2017' Huw Williams ar gyfer blog *Legal View* Geldards LLP, 1 Chwefror 2017; www.geldards.com cyrchwyd Ion 22 2018.

Grimes, R., 2003. 'Legal literacy, community empowerment and the law schools – some lessons from a working model in the UK', *The Law Teacher* 37:3, tt. 273-284.

Grimes, R. a Gibbons, J., 2016. 'Assessing Experiential Learning – Us, Them and the Others', *International Journal of Clinical Legal Education.* tt. 111-131.

Grimes, R., O'Brien. E, McQuoid-Mason, D. a Zimmer, J., 2011. 'Street Law and Social Justice Education', yn F. Bloch (gol.), *The Global Clinical Movement: Educating Lawyers for Social Justice,* OUP.

Grŵp Monitro CCUHP Cymru, 2015. Adroddiad i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, sesiwn rhif 72, adroddiad anllywodraethol.

Hafal, 2016. *Gwneud Synnwyr, Adroddiad gan bobl ifanc ar eu lles a'u hiechyd meddwl.* Hafal. Ar gael ar: http://www.hafal.org/publications/

Jones, G. Ei Anrhydedd y Barnwr, 2016. *Cyfraith Teulu Cymru: Amser i Greu Awdurdodaeth Annibynnol?* Darlith Goffa Robin ap Cynan yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni, 2016. Ar gael ar: http://www.legalwales.org/cym/index.html (Archif)

Jones, T.H. a Williams J.M., 2004. 'Wales as a Jurisdiction', *Public Law* tt 78 – 101

Lleisiau Bach yn Galw Allan, 2015. *Report by children aged 11 and under in Wales to the UN Committee on the Rights of the Child.* Sesiwn rhif 72, adroddiad cymdeithas sifil.

Lleisiau Bach yn Galw Allan, Adroddiad Terfynol, 2018. www.lleisiaubach.org

Llywodraeth Cymru, 2015. *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes,* Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2017. 'Athrawon Newydd, Tymor Newydd, Safonau Addysgu Newydd' Datganiad i'r wasg, 4 Medi 2017.

Llywodraeth Cymru, 2018. *Cod Erlyn Llywodraeth Cymru* ar gael ar http://gov.wales/docs/legislation/justice/180109-prosecution-code-en.pdf

Morse, S., 2017. '"I'm so glad that I live in a world where there are Octobers"', Editorial. *International Journal on Public Legal Education.* 1:1 tt. 1- 3

Mulqueen a Thorpe, 2015. *How do we teach about the law?* Advice Now / Law for Life

National Assembly for Wales Votes@16 *Lowering the Voting Age to Sixteen*. Briffiad Ymchwil 23 Ionawr 2018, P-05-794.

O'Brein, M. Y., 2017. 'New Beginnings'**.** *International Journal on Public Legal Education.* 1:1 tt. 4 - 18

Participate!, 2016 *Supplementary report to the UN Committee on the Rights of the Child by the Campaign for the Children and Young People's Assembly for Wales*, Sesiwn rhif 72, adroddiad cymdeithas sifil.

Partneriaeth Gilfillan, 2013. *Law for Life: Legal Capabilities for Everyday Life – Evaluation Report*. Ar gael ar: http://www.lawforlife.org.uk/publications/

Pascoe Pleasance, Balmer, N.J. a Denvir, C., 2015. *How People Understand and Interact with the Law, Cambridge*, PPSR.

PLEAS, 2007. *Developing Capable Citizens: The role of the public legal education*. Adroddiad y Tasglu Addysg a Chymorth Cyfreithiol Cyhoeddus (Public Legal Education and Support Task Force), Ar gael ar: http://lawforlife.org.uk/

Plenet ac IARS, 2009. *Measuring Young People's Legal Capability*, Public Legal Education Network / Independent Academic Research Studies

Sefydliad Cymru'r Gyfraith, 2017. http://www.legalwales.org/cym/index.html

Suhaimi A. M. a Zulkifli N. F. M., 2012. 'Street Law Based CLE: A Student-Impact-Assessment', *International Journal of Clinical Legal Education*, Cyf. 18.

Thomas, Syr John, 2016. *The Law of Wales: Looking Forwards*. Araith yng Nghynhadledd Cymru'r Gyfraith, 9 Hydref 2015 gan y Gwir Anrh. Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr. Ar gael ar www.judiciary.gov.uk

Wintersteiger, L., 2016. *Legal Needs, Legal Capability and the Role of Public Legal Education***.** Adroddiad gan Law for Life: the Foundation for Public Legal Education.

## Atodiad 1 Darpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ac ati yng Nghymru

| **Prifysgol** | **Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus** | **Gwasanaethau eraill sy'n wynebu'r gymuned** |
|---|---|---|
| **Aberystwyth** | | Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr Cenedlaethol<br><br>Clinig Teulu Lleol: cyngor cyfreithiol a chymorth ag achosion am ddim bob mis |

| | | |
|---|---|---|
| **Bangor** | Cyfraith y Stryd (dan arweiniad myfyrwyr) | |
| **Caerdydd** | | Y Gyfraith mewn Gofal Iechyd: materion cyllido<br><br>Y Gyfraith mewn Cyfiawnder: prosiect camweinyddu cyfiawnder<br><br>Y Gyfraith mewn Chwaraeon: cyngor cyfreithiol am ddim i glybiau rygbi Cymru<br><br>Y Gyfraith yn y Llys: cymorth wyneb yn wyneb i ymgyfreithwyr yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd<br><br>Y Gyfraith mewn Iechyd Meddwl: hyfforddiant i weithredu fel oedolion priodol ar gyfer oedolion agored i niwed sydd yn y ddalfa gan yr heddlu<br><br>Mae pob un o'r uchod yn brosiectau gwirfoddol gan fyfyrwyr sy'n cael eu cefnogi gan staff |
| **Abertawe** | Modiwl Cyfraith y Stryd a chanddo gredydau o 2017/2018<br><br>Sesiynau Cyfraith y Stryd wyneb yn wyneb ar gyfer ymgyfreithwyr yn y Tribiwnlys cyflogaeth: gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr, yn cael eu cefnogi gan staff | Clinig Cyfraith Abertawe: sesiynau cyngor cyfreithiol cychwynnol am ddim yn rhan o waith myfyrwyr yn y modiwl â chredydau 'Clinical Legal Education' o 2017/18<br><br>Camweinyddu Cyfiawnder: cymorth â gwaith achosion yn rhan o waith myfyrwyr yn y modiwl â chredydau 'Miscarriage of Justice'. Mae rhagor o gymorth yn cael ei gynnig gan brosiect gwirfoddol gan fyfyrwyr sy'n cael eu cefnogi gan staff<br><br>Canolfan Gyfreithiol y Plant: gwybodaeth, addysg, cyngor a mynediad i gynrychiolaeth i blant a phobl ifanc |
| **Prifysgol De Cymru** | | Clinig Cyngor Cyfreithiol ac Ariannol: gwasanaeth cynghori am ddim gyda gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr yn cael eu cefnogi gan staff |

# Atodiad 2 Darpariaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus arall yng Nghymru

| Prosiect | Darparwr | Cwmpas | Darpariaeth yng Nghymru | Gwefan |
|---|---|---|---|---|
| Lawyers in Schools | Y Citizenship Foundation (sefydlwyd yn 1989 gyda chymorth gan Gymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr) | Mae 80 y cant o ysgolion uwchradd y DU wedi cymryd rhan yn un o raglenni'r Citizenship Foundation neu wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae cyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol i gyflwyno sesiynau mewn ysgolion. | Swyddog Cymru sy'n gweithio'n benodol ar ddarparu gwasanaethau i Gymru o 2016 (nawdd gan y Legal Education Foundation). | www.lawyersinschools.org.uk |
| Citizen's Passport – Your Guide to the Law (argraffiad rhif 16) | Y Citizenship Foundation | Mae dros 2 filiwn o bobl ifanc wedi cael copi o'r 'Citizen's Passport'. | Mae fersiwn Gymraeg o'r 'Citizen's Passport' yn cael ei hystyried | http://www.citizenshipfoundation.org.uk/main/resource.php?s418 |
| SmartLaw | Y Citizenship Foundation | Ap ar gyfer yr iPhone ac Android sy'n cysylltu'r gyfraith â diwylliant poblogaidd, newyddion a sefyllfaoedd cyfreithiol bob dydd. Datblygwyd gan fyfyrwyr y gyfraith, cyfreithwyr a bargyfreithwyr. | Dim fersiwn sy'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru | https://smartlaw.org.uk/ |
| Fearless | Crimestopper | Cynllun ieuenctid gan yr elusen | Swyddog Cymru sy'n gweithio'n benodol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | genedlaethol, wedi'i anelu at bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed | ar ddarparu gwasanaethau i Gymru er 2016<br><br>Cynhyrchwyd ffilm ar y cyd â'r rhaglen graidd Cyswllt ag Ysgolion i Gymru gyfan<br><br>Fersiwn Gymraeg o safle Fearless.org | |
| Advice Now | Law for Life | Gwasanaeth gwybodaeth ar y we am y gyfraith a hawliau<br><br>Prosiectau addysgu cymunedol am faterion yn ymwneud â thai, lles, defnyddwyr a chyflogaeth | Dim gwybodaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru | http://www.advicenow.org.uk/ |

## Atodiad 3

### Ymgynghoriad ag Ieuenctid ar gyfer Ymchwil Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus (Cymru)

**Hyd y Sesiwn:** 1 ½ awr

**Meini Prawf o ran Cyfranogwyr:** Plant a phobl ifanc (11-18 oed)

**Nifer y Cyfranogwyr:** Uchafswm o 15 fesul grŵp

**Ymchwilydd:** Hannah Bussicott (yn ogystal ag un Ymchwilydd)

**Nod y Sesiwn:** Casglu gwybodaeth er mwyn datblygu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at blant a phobl ifanc (7 – 24), a rhoi ystyriaeth i gyfraith a

pholisi wedi datganoli. Yr amcanion yw a. darganfod a mapio pa Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru; b. archwilio ei chwmpas, ei hansawdd a pha mor hygyrch ydyw i blant a phobl ifanc; c. darganfod beth mae ar blant a phobl ifanc ei eisiau er mwyn eu galluogi i gael mynediad i'r gyfraith; ch. helpu Canolfan Gyfreithiol y Plant, ysgolion y gyfraith Cymru ac eraill fel y bo'n briodol i ddatblygu Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus sy'n berthnasol, yn hygyrch ac yn effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Amlinelliad o'r Sesiwn:**

| Amseriad | Gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|
| 10 mun | Torri'r garw – "2 wirionedd a chelwydd" | |
| 10 mun | Mynegi Safbwyntiau (Cytuno / Anghytuno –<br>1.Mae'r gyfraith yn effeithio arnaf bob dydd<br>2.Rwy'n gwybod digon am y gyfraith<br>3.Mae plant/pobl ifanc yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am y gyfraith<br>4.Mae arnaf eisiau'r cyfle i fod yn rhan o ddatblygu cyfreithiau a pholisïau newydd a fydd yn effeithio ar fy nyfodol | |
| 10 mun | Taflu syniadau mewn grŵp – Pa feysydd o'r gyfraith sy'n effeithio arnoch chi fel person ifanc? | |
| 5 mun | Fideo – Sut mae'r gyfraith yn effeithio ar bobl ifanc? | |
| 10 mun | Ateb y cwestiynau canlynol gan ddefnyddio Plicker:<br>1.Yn y dyfodol, ble fyddai'r lle gorau i ddysgu am y gyfraith?<br>*Ysgol* *Clybiau Ieuenctid/Allgwricwlaidd*<br>*Rhyngrwyd* *Ap* *Arall …*<br>2.Beth yn eich barn chi fyddai'r ffordd orau o ddysgu plant a phobl ifanc am y gyfraith?<br>Gweithdai rhyngweithiol Fideos Podlediadau<br>Taflenni ffeithiau e-fwletinau Arall…. | |
| 20 mun | Gweithgarwch Grŵp – Meddyliwch am un ffordd ddiddorol y gallai plant a phobl ifanc ddysgu am y gyfraith. Rhowch adborth i'r grŵp | Papur A1 a phinnau ffelt |
| 15 mun | Gêm: Oedran Cyfreithiol i … | Cardiau gêm |
| 10 mun | Gwerthuso'r sesiwn a chyfeirio'r cyfranogwyr yn eu blaenau | |

*DS. Trwy gydol y sesiwn ceir bwrdd cwestiynau a bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael nodiadau gludiog ar y cychwyn ac yn cael eu hannog i roi cwestiynau sy'n ymwneud â'r gyfraith ar y bwrdd trwy gydol y sesiwn.*

## Atodiad 4

**Holiadur Pobl Ifanc**

| |
|---|
| *Soniwch wrthym amdanoch chi'ch hun …* |
| **Oed:** |
| **Rhyw:** |
| **Ethnigrwydd:** |
| **Anabledd:** |
| **Ardal:** |

**1. Ticiwch un o'r datganiadau isod**

- *Mae'r gyfraith yn effeithio arnaf fi bob dydd*
- *Weithiau mae'r gyfraith yn effeithio ar fy mywyd*
- *Prin yw'r adegau pan fydd y gyfraith yn effeithio ar fy mywyd*
- *Nid yw'r gyfraith yn cael unrhyw effaith ar fy mywyd o gwbl*

**2. Ydych chi erioed wedi cael problem yr oedd angen cyngor cyfreithiol ar ei chyfer?**

*Do* *Naddo*

**Os ydych chi, problem ynghylch beth oedd hi?**

*Addysg* *Teulu* *Y ffaith eich bod yn derbyn gofal*
*Bwlio* *Cymorth ychwanegol* *Rhywbeth arall ...*

**3. Ble fyddech chi yn, neu ble ydych chi wedi, cael gafael ar gyngor cyfreithiol?**

*Rhyngrwyd* *Ysgol* *Ap* *Ffôn*

*Rhiant/Gofalwr/Gwarcheidwad* *Ymweld â Chanolfan Wybodaeth*

**4. Ar raddfa o 1 – 10, ble fyddech chi'n gosod eich gwybodaeth am y gyfraith?**

*1 2 3 4 5 6 7 8 9 10*

**5. Ydych chi'n teimlo bod plant yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am y gyfraith ar hyn o bryd?**

*Ydw* *Nac ydw*

**6. Ble fyddai'r lle gorau i ddysgu am y gyfraith yn y dyfodol?**

*Yr ysgol* *Clybiau ieuenctid/Allgwricwlaidd*

*Rhyngrwyd* *Ap* *Arall …*

**7. Beth yn eich barn chi fyddai'r dull gorau o ddysgu plant a phobl ifanc am y gyfraith?**

*Gweithdai rhyngweithiol* *Fideos* *Podlediadau*
*Taflenni Ffeithiau* *e-fwletinau* *Arall ….*

**8. Ticiwch os ydych chi wedi clywed am unrhyw rai o'r mentrau canlynol.**

- *StreetLaw*
- *Lawforlife*
- *Young Persons Passport (y Citizenship Foundation)*
- *SmartLaw*
- *Mock Trial*
- *Lawyers in Schools*

**9. Fyddech chi'n hoffi cael y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad cyfreithiau a pholisïau newydd fydd yn effeithio ar eich dyfodol?**

*Byddwn* *Na fyddwn*

**10. Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn rhywbeth er mwyn dysgu rhagor am y gyfraith?**

*Byddai* *Na fyddai*

*Diolch am dreulio amser yn llenwi ein holiadur!*
*Mae'r holiadur yma ar gael hefyd ar ffurf gweithdy felly cysylltwch â Hannah Bussicott am ragor o wybodaeth am sut y'i cyflwynir neu os oes gennych grŵp a chanddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil.*
*Ebost: h.j.bussicott@swansea.ac.uk* *Ffôn: 01792 295399*

Children's Legal Centre
Canolfan Gyfreithiol y Plant

# Cysylltwch â Ni

## Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru

@ChildLegalWales

Hannah Bussicott

(01792) 294663

h.j.bussicott@swansea.ac.uk

Hawlfraint Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, 2018